



## Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol Ch4 2023-24

### Croeso i wytihad rhifyn Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!

Ers rhifyn mis Rhagfyr y Cylchlythyr, caffodd cyfarfod cyntaf Grŵp Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NISPG) ei gynnal ar 23 Ionawr yn dilyn cau Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) yn ffurfiol. Mae Cylch Gwaith y Grŵp newydd hwn wedi'i gadarnhau'n ffurfiol a, gyda chymorth y Cadeirydd newydd, Arweinydd Clinigol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, Dr Kakali Mitra, mae gwaith wedi mynd yn ei flaen yn dda i wella'r ymgysylltu â chlinigwyr yn genedlaethol.

Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o amcanion yng nghynllun gwaith 23/24 ac mae'r tîm wrthi'n cwblhau'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd mwy o fanylion i ddod yn y cylchlythyr nesaf.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau ein cylchlythyr olaf ar gyfer 2023-24! Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu, neu os oes gennych chi ymholaiddau cyffredinol, anfonwch e-bost at [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

## Rhaglen Delweddu Genedlaethol National Imaging Programme

## National Imaging Programme Newsletter Q4 2023-24

### Welcome to the eighth edition of the National Imaging Programme Newsletter!

Since December's edition of the Newsletter, the inaugural meeting of the National Imaging Programme Strategy Group (NISPG) was held on 23<sup>rd</sup> January following the formal closure of the National Imaging Programme Strategy Board (NIPSB). The Terms of Reference of this new Group have been formally ratified and, with the help of the new Chair, NIP Clinical Lead Dr Kakali Mitra, work has progressed well to improve the engagement with clinicians nationally.

The programme is on target to complete most objectives within 23/24 workplan and the team are currently finalising the workplan for next year with more details to come in the next newsletter.

We hope you enjoy our final newsletter of 2023-24! If you would like to be added to the circulation list, or have general enquiries, please email [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

## Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

### Gweithlu ac Addysg

## Workstream Updates

### Workforce and Education

## Cyflawniadau Allweddol Ch4 2023/24

- Trafodwyd a chytunwyd ar gynllun gwaith terfynol 2024/25.
- Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn cwblhau briff prosiect i hwyluso darparu cyrsiau gosod canwlâu o'u canolfan ym Mhencoed i Weithwyr Cymorth Clinigol Radioleg a Radiograffwyr.
- Mae maes Diagnosteg yn gweithio ar y cyd i gyflawni eu strategaeth gweithlu eu hunain a strategaeth AaGIC.
- Mae gwaith wedi dechrau ar brosiect gwybodaeth y gweithlu meddygol.
- Mae Grŵp Gweithlu a Thrawsnewid Addysg Delweddu aelodaeth wedi'i hadolygu a chynrychiolydd datblygiad y gweithlu a'r sefydliad yn ei le.
- Cyflwynodd Gill Lingwood yng nghyfarfod datblygiad y gweithlu a'r sefydliad i gynyddu gweledded ac ymgysylltu gwaith Grŵp Gweithlu a Thrawsnewid Addysg Delweddu.
- Mae'r Briff Prosiect ar gyfer swydd-ddisgrifiadau Arwain a Rheoli wedi'u dosbarthu ar gyfer sylwadau.
- Mae Briff Prosiect ar gyfer safoni swydd-ddisgrifiadau Uwch Ymarferwyr Radioleg ac Ymgynghorydd Anfeddygol ar y gweill.
- Mae gwybodaeth busnes a galw a gwaith gallu ar y gweill.
- Mar gwaith cwmpasu ar y gweill i ddiffinio materion yng ngweithlu sonograffi.

## Grŵp Gweithiwr Cymorth Delweddu (ISWG)

- Mae swydd-ddisgrifiadau Cymru Gyfan wedi'u cwblhau a'u paru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Clinigol Radioleg ym Mandiau 2, Band 3 a Band 4.
- Mae techneg SBAR wedi'i hysgrifennu i'w rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol y Bwrdd

## Q4 2023/24 Key Achievements

- Finalised 2024/25 workplan discussed and agreed.
- National Imaging Academy Wales are finalising a project brief to facilitate provision of cannulation courses from their Pencoed centre to Radiology Clinical Support Workers and Radiographers.
- Diagnostics working collaboratively to deliver on both their own workforce strategy and that of Health Education and Improvement Wales.
- Work has begun on the medical workforce intelligence project.
- Imaging Workforce and Education Transformation Group membership reviewed and Workforce & Organisational Development representative in place.
- Gill Lingwood presented at Workforce & Organisational Development meeting to increase visibility & engagement of Imaging Workforce and Education Transformation Group work.
- Project Brief for Leadership & Management JDs circulated for comment.
- Project Brief for Radiology Advanced Practitioner and Non-Medical Consultant JDs standardisation in progress.
- Business intelligence and demand and capacity work in progress.
- Scoping underway to define issues within sonography workforce.

## Imaging Support Worker Group (ISWG)

- All-Wales job descriptions completed and matched for Radiology Clinical Support Workers (RCSWs) at Band 2, Band 3 and Band 4.
- SBAR written for sharing with key HB stakeholders, raising

Iechyd, gan godi  
ymwybyddiaeth o'r swydd-  
ddisgrifiadau safonol y  
cytunwyd arnynt.

- Mae'r gwaith o adolygu rolau Ymarferwyr Cynorthwyol wedi'i gychwyn.
- Mae gwaith adolygu a diweddu swydd-ddisgrifiad yr Ymarferwyr Cynorthwyol (Mamograffeg Sgrinio) ar y gweill.
- Mae trafodaeth wedi bod gydag AaGIC, Cymdeithas y Radiograffwyr, Prifysgol Caerdydd a rheolwyr gwasanaethau ynghylch addysg Ymarferwyr Cynorthwyol presennol wedi'i chwblhau i ddeall materion presennol.
- Gan weithio ochr yn ochr ag AaGIC, mae camau rhagarweiniol wedi'u cymryd gyda'r nod o ddarparu adnoddau addysgol i fyrrdau Iechyd i gefnogi Gweithwyr Cymorth Clinigol Radioleg sy'n ennill cymhwyster Cymorth Delweddu Clinigol Lefel 3 Agored.

I gael rhagor o wybodaeth am Ffrwd Waith y Gweithlu ac Addysg, e-bostiwch

[Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk](mailto:Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk)

awareness of the agreed standardised job descriptions.

- Work to review Assistant Practitioner roles commenced.
- Review and updating of the Assistant Practitioner (Screening Mammography) job description underway.
- Discussion with Health Education and Improvement Wales, SoR, Cardiff University and service managers regarding current AP education completed to understand current issues.
- Working alongside Health Education and Improvement Wales, preliminary steps have been taken which aim to provide educational resources to HBs to support Radiology Clinical Support Workers attaining the Agored Level 3 Clinical Imaging Support qualification.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk](mailto:Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk)

## Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr

Cyflawniadau Allweddol Ch4  
2023/24

- Gwnaeth Grŵp Ansawdd CT Cymru Gyfan gyfarfod am yr ail dro ym mis Ionawr 2024, gyda thrafodaethau cadarnhaol ynghylch Qaelum a gweithredu safonau QSI penodol.
- Gwnaeth Grŵp Adrodd Radiograffydion Cymru Gyfan gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2024, ac roedd presenoldeb da a thrafodaeth gadarnhaol am gwmpasu yn y dyfodol.
- Gwnaeth Grŵp Uwchsain Cymru Gyfan gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Mawrth, a

## Quality, Safety and User Experience

### **Q4 2023/24 Key Achievements**

- The 2nd All Wales CT Quality Group met in January 2024, with positive discussions regarding Qaelum and the implementation of specific QSI standards.
- 1st All Wales Reporting Radiographer Group met February 2024, which had good attendance and positive discussions on future scoping.
- 1st All Wales Ultrasound Group met in March, with strong discussions regarding the pressures US was currently under.

chafwyd trafodaethau cryf am y pwysau ar Uwchsain ar hyn o bryd.

- Cafodd cynlluniau QSI eu cyflwyno yn y Bwrdd Strategaeth Ddiagnostig. Cafodd ymateb cadarnhaol i ddechrau; fodd bynnag, mae'n aros am arweiniad ynghylch y camau nesaf.
- Sefydlwyd cyfarfod cychwynnol gydag ADGC ynghylch Cydweithredu ar ddeallusrwydd artiffisial.
- Mae Treial Beichiogrwydd Cynhwysol yn parhau o fewn BIPBA gydag adborth cadarnhaol o'r cam cyntaf.
- Cyswilt ac ymgysylltiad cyson â Coleg ByR/CyR.
- Grwpiau Ansaidd Dull 4 wedi'u sefydlu ac yn gweithredu.
- Bydd cadeiryddion y grŵp 4-dull yn cael eu hychwanegu fel aelodau ffurfiol o Fforwm Ansaidd Cymru Gyfan ar gyfer cydweithio ar gynnydd.
- Mae drafft cyntaf dogfennau Cyseiniant Magnetig Niwclear Cymru Gyfan bellach wedi'u cwblhau ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
- Trafodaethau ynghylch gosod canwlâu mewn cydweithrediad â Rhaglen y Gweithlu ac ADGC.

#### Prosiect Cydweithio ar Ddeallusrwydd Artiffisial

- Cyfarfod cyntaf yn ADGC Chwefror 2024, gydag aelodau o feisydd Clinigol, Ymchwil, Cydwasanaethau, Canolfan Hwb Gwyddorau LIFE, Academi, y GIG a Gweithrediaeth y GIG yn bresennol.
- Briff y prosiect a chylch gwaith wedi'u trafod ac ar y gweill.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Ansaidd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion, e-bostiwch [James.Triscott2@wales.nhs.uk](mailto:James.Triscott2@wales.nhs.uk)

• QSI plans presented at Diagnostic Strategy Board. This had an initial positive reaction; however, awaiting steer as to next steps.

- An initial meeting with the NIAW regarding AI Collaboration was set up.
- Inclusive Pregnancy Trial ongoing within SBUHB with successful feedback from first phase.
- Constant contact and engagement with RcR/CoR.
- Modality Quality Groups moving forward, 4 set up and running.
- Chairs of the 4-modality group will be added as formal members of the All-Wales Quality Forum for progress collaboration.
- First draft of All Wales NMR documents had now been completed and currently under review.
- Discussions around cannulation in collaboration with Workforce Programme and NIAW.

#### AI Collaboration Project

- First meeting in NIAW February 2024, with members from Clinical, Research, Shared Service, LIFE Sciences Hub, Academy, NHS and NHS Executive in attendance.
- Project brief and ToR discussed and in process.

For further information on the Quality, Safety and user Experience Workstream, please contact [James.Triscott2@wales.nhs.uk](mailto:James.Triscott2@wales.nhs.uk)

## Cynllunio Adnoddau Strategol

### **Cyflawniadau Allweddol Ch4 2023/24**

#### **PROSIECT OFFER DELWEDDU CENEDLAETHOL A BLAENORIAETHAU CYFALAF (NIECP):**

- Mae pob cam dilynol yn sgil y Panel Adolygu ffurfiol cyntaf ym mis Medi 2023 wedi'u cwblhau.
- Mae'r Cylch Gwaith ar gyfer Panel Adolygu NIECP wedi'i ddiwygio a bydd y fersiwn wedi'i diweddu yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod panel ffurfiol nesaf i'w gymeradwyo.
- Fel y cafodd ei awgrymu yn y rhifyn diwethaf, defnyddiwyd y rhestr o argymhellion wedi'u blaenoriaethu ar gyfer amnewid offer delweddu cyfalaf a ddatblygyd yn y cyfarfod panel ffurfiol cyntaf i ddyrannu cyfran % delweddu o gyllid cyfalaf a gafodd ei ryddhau cyn y Nadolig – mwy o fanylion am hyn, gan gynnwys yn yr adroddiad isod.
- Trafodaethau parhaus yngylch dyblygu'r broses hon ledled rhagleni diagnostig eraill. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda chydweithwyr yn y Rhaglen Patholeg Genedlaethol ddiwedd mis Ionawr.
- Dechreuodd ail iteriad y broses i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel Adolygu ffurfiol ar 16 Ebrill – mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan yn y camau cychwynnol.

#### **PROSIECT GWYBODAETH BUSNES SYSTEM GWYBODEG RADIODEG:**

- Cafodd metrigau Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliaid a pherfformiad drafft eu cyflwyno iaelodau'r Grŵp Strategaeth Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSG) yng nghyfarfod mis Chwefror – mae'r dogfennau'n amlinellu'r gofynion Gwybodaeth Busnes o ran adroddiadau cenedlaethol safonol a'r manteision i'r Rhaglen Delweddu

## Strategic Resource Planning

### **Q4 2023/24 Key Achievements**

#### **NATIONAL IMAGING EQUIPMENT AND CAPITAL PRIORITIES PROJECT (NIECP):**

- All follow up actions following the first formal Review Panel in September 2023 have been completed.
- Terms of Reference for the NIECP Review Panel have been revised and the updated version will be taken to the next formal panel meeting for approval.
- As highlighted in the last edition, the prioritised list of recommendations for capital replacement of imaging equipment developed at the first formal panel meeting was used to allocate the imaging % share of capital funding released before Christmas – more detail on this included in the feature below.
- Ongoing discussions regarding replication this process across other diagnostic programmes. Initial meeting with colleagues in the National Pathology Programme was held at the end of January.
- Second iteration of the process commenced in preparation for the next formal Review Panel meeting on 16<sup>th</sup> April – all Health Boards and Trusts have engaged in the initial stages.

#### **RADIOLOGY INFORMATICS SYSTEM PROCUREMENT (RISP) BUSINESS INTELLIGENCE (BI) PROJECT:**

- SBAR and draft performance metrics presented to National Imaging Programme Strategy Group (NIPSG) members at the February meeting – the documents outline the Business Intelligence requirements in relation to standardised national reporting and the benefits to both the National Imaging

- Bydd cydweithwyr clinigol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael cyfle arall i wneud sylwadau yn dilyn cyfarfod NIPSG ym mis Mawrth, yna bydd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RISP), i gysylltu â'r cyflenwyr o ran cyfannu'r agweddau Gwybodaeth Busnes.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, e-bostiwch  
[Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

- Clinical colleagues and other key stakeholders will have further opportunity to comment following the NIPSG meeting in March, the information will then be passed to the Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme, to liaise with the suppliers regarding integration of the BI aspects.

For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact  
[Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

### **Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes**

Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RCSGR) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

### **Informatics, Information and Business Intelligence**

Delivery of this workstream is managed via the Digital Health and Care Wales (DHCW) Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

## **Hwyl Fawr i Clarissa Wong! / Fairwell to Clarissa Wong!**



Bydd un o'n Huwch Swyddogion Cymorth Prosiect gwych - Clarissa Wong – yn gadael y Rhaglen Delweddu Genedlaethol i fynd i swydd newydd ddiwedd mis Mawrth.

Mae Clarissa wedi bod gyda ni am ychydig dros flwyddyn ac mae hi wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr holl gyfarfodydd a phrosiectau y mae hi wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydyn ni'n dymuno'r gorau iddi hi gyda'i thîm newydd ac yn gwybod y bydd hi'n parhau i ragori yn ei rôl newydd gydag Iechyd a Gofal Digidol

One of our fantastic Senior Project Support Officers – Clarissa Wong – will be leaving the National Imaging Programme for pastures new at the end of March.

Clarissa has been with us for just over a year and has made a hugely positive impact on all the meetings and projects she has supported during that time. We wish her the very best with her new team and know she will continue to excel in her new role with Digital Health and Care Wales (DHCW).

Cymru (DHCW).

Hoffai tîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Clarissa am ei holl waith caled dros gyfnod prysur iawn i ni. Pob lwc yn dy'r rôl yn y dyfodol Clarissa, byddwn ni'n gweld dy eisiau di!

The NIP team would like to take this opportunity to thank Clarissa for all her hard work over what has been a very busy time for us. Good luck in your future role Clarissa, you will be missed!


## Cwblhau Prosiect NIECP! / NIECP Project Completion!

Rydym yn falch o gadarnhau bod y prosiect Delweddu ac Offer a Blaenorriaethau Cyfalaf Cenedlaethol (NIECP) yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus!

Diben a gweledigaeth Prosiect NIECP yw cefnogi datblygu rhaglen amnewid cyfalaf cynaliadwy wedi'i blaenorriaethu, a chydlynud dull gweithredu cymeradwy o nodi, gwerthuso a mabwysiadu technolegau delweddu newydd. Mae'r prosiect, o dan arweiniad Uwch Reolwr Prosiect Rhaglen Delweddu Genedlaethol, Rachel Howells, yn dibynnu ar randdeiliaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd drwy broses pedwar cam bob dwy flynedd i gynhyrchu a chynnal rhestr flaenorriaeth o offer ar gyfer amnewid cyfalaf.

We are Proud to Confirm Successful Implementation of the National Imaging and Equipment and Capital Priorities (NIECP) Project!

The purpose and vision of the NIECP Project is to support the development of a prioritised, sustainable capital replacement programme, and co-ordinate an approved approach to identifying, evaluating, and adopting new imaging technologies. The project, led by NIP Senior Project Manager Rachel Howells, relies on key stakeholders working together through a four-stage process bi-annually to produce and maintain a prioritised list of equipment for capital replacement.



Mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y prosiect ac erbyn hyn mae swyddogaeth adolygu sefydledig i weithredu'r dull cymeradwy ar gyfer gwerthuso offer delweddu sy'n agosâu at ddiwedd ei oes neu yr ystyri ei bod yn frys clinigol ei newid a gwneud argymhellion â blaenorriaeth i lywio penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau cyfalaf cyfyngedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod argymhellion yn cael eu gwneud ar sail glinigol wedi'u hadolygu gan gymheiriad, lle mae offer yn cael ei gaffael mewn modd amserol i ddarparu'r lefel briodol o ddelweddu clinigol i gefnogi gofynion gofal iechyd poblogaeth Cymru.

Mae'n bleser gennym gadarnhau bod y rhestr a gafodd ei chynhyrchu yng nghyfarfod ffurfiol cyntaf Panel Adolygu NIECP ym mis Medi 2023 wedi cael ei defnyddio i gefnogi ceisiadau Delweddu am

All Health Boards and Trusts in Wales have engaged in the project and there is now a fully established review function to execute the approved approach for evaluating imaging equipment approaching end of life or deemed clinically urgent for replacement and make prioritised recommendations to inform decisions on the allocation of finite capital resources. This will help ensure recommendations are made on a peer reviewed clinical basis, where equipment is procured in a timely manner to deliver the appropriate level of clinical imaging to support the healthcare demands of the population of Wales.

We are delighted to confirm that the list produced at the first formal NIECP Review Panel meeting in September 2023 was used to support Imaging bids for funds from the Welsh Government Capital Funding for Diagnostics. The second iteration of the

arian gan Gyllid Cyfalaf ar gyfer Diagnosteg Llywodraeth Cymru. Mae ail iteriad y broses ar y gweill erbyn hyn, a bydd y rhestr o flaenoriaethau'n cael ei hadnewyddu yng nghyfarfod ffurfiol nesaf Panel Adolygu NIECP ar 16 Ebrill 2024.

Dyweddodd Andrew Ward, Rheolwr Rhaglen Genedlaethol - Offer Diagnosteg a Therapiâu Arbenigol ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP), sydd wedi bod yn aelod hanfodol o dîm y prosiect o'r cychwyn:

*"Mae'r offer clinigol a brynwyd o ganlyniad i'r broses a'r mewnbwn gan gydweithwyr a'u dull cyfunol o ymdrin â chynlluniau wedi'u hadolygu gan gymheiriad ledled Cymru wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol wedi'i dargedu yn y dulliau hŷn, sydd wedi mynd yn angof, yn aml. Bydd gan hyn fanteision pellgyrhaeddol, yn anad dim, gallu'r systemau newydd hyn i gysylltu'n ddi-dor â systemau TG Delweddu. Rydyn ni eisoes wedi cael trafodaethau gyda chydweithwyr o ddisgyblaethau clinigol eraill am y dull gweithredu a sut y gallant fanteisio ar y data sydd eisoes ganddynt mewn ffordd anstrwythuredig i'w wneud yn rhywbeth a all fod o fudd i bawb."*

Os hoffech chi fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk).

process is now well underway, and the prioritised list will be refreshed at the next formal NIECP Review Panel meeting on 16th April 2024.

Andrew Ward, National Programme Manager - Specialist Diagnostic and Therapies Equipment in NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP), who has been a crucial member of the project team from commencement stated:

*"The clinical equipment purchased as a result of the process and input from colleagues and their collective approach to peer reviewed schemes across Wales has resulted in a significant and targeted investment in the older, often forgotten modalities. This will have far reaching benefits not least of which will be the ability of these new systems to connect seamlessly to the Imaging IT systems. We have already had discussions with colleagues from other clinical disciplines about the approach and how they can leverage the data they currently have hold in an unstructured way into something which can be of benefit to all."*

If you would like further information, please email [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk).

## Hwb Arweinyddiaeth Gwyddoniaeth Gofal Iechyd / Healthcare Science Leadership Hub

Mae Arweinydd Rhaglen y Gweithlu ac Addysg, Gill Lingwood, wedi bod yn gweithio gydag AaGIC i godi ymwybyddiaeth o Gwella, porth Arweinyddiaeth AaGIC Cymru, gyda'r nod o ddarparu adnoddau arweinyddiaeth i bawb.

Ydych chi'n rheolwr a hoffai helpu staff i ddatblygu eu sgiliau arwain? A fyddch chi wedi hoffi cael mwy o hyfforddiant arweinyddiaeth i baratoi ar gyfer eich rôl? Oes gennych chi ddiddordeb mewn datblygu eich set sgiliau? Dewch draw i sesiwn 'cinio a dysgu' ar gynllunio arweinyddiaeth ac olyniaeth wedi'i threfnu gan Gill. Mae'r sesiwn awr hon yn gyfle i'n cydweithwyr yn AaGIC arddangos eu pecyn cymorth arweinyddiaeth ac olyniaeth newydd a sut y mae modd ei ddefnyddio yn eich adrannau chi. Rydym yn argymhell yn grif bod unrhyw un sydd â chyfrifoldebau arwain/rheoli llinell yn mynchyu.

Workforce & Education Programme Lead Gill Lingwood has been working with HEIW to raise awareness of Gwella, the HEIW Leadership portal for Wales which aims to provide leadership resources for all.

Are you a manager who would like to help staff develop their leadership skills? Do you wish that you had received more leadership training in preparation for your role? Are you simply interested in building your skillset? Come along to a 'lunch and learn' session on leadership and succession planning which has been organised by Gill. This hour-long session is an opportunity for our colleagues in HEIW to showcase their new leadership and succession tool kit and how it can be utilised within your departments. We highly recommend that anyone with leadership/line management responsibilities attend.


Cynhelir y sesiwn ar **8 Mai 2024, 12:30 – 13:30**

Dyma'r cod URL a QR ar gyfer y cyfarfod –  
Byddwn yn cylchredeg posteri a negeseuon  
atgoffa yn nes at yr amser.

The session will take place on **8 May 2024,  
12:30 – 13:30**

Here is the URL and QR code for the  
meeting – We will circulate posters and  
reminders nearer the time.

<https://tinyurl.com/2d5vrwup>



## Fframwaith Gallu Digidol / Digital Capability Framework



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# HOW TO COMPLETE

The Digital Capability Framework

1

Register with Y Ty Dysgu



## Verify NHS Wales Email

This may take 24 hours

2

3

Complete the self evaluation



Review your self evaluation report

4

5

Learn more with the bespoke resources

Gwyddoch chi fod sgiliau digidol yn elfen hanfodol o fewn safonau ymarfer wedi'u diweddu Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal HCPC wedi'u diweddu? Mae'r Fframwaith Gallu Digidol yn offeryn ymarferol, rhyngweithiol i helpu i ddeall yn well y sgiliau, yr ymddygiad a'r agweddau sydd eu hangen i ffynnu mewn byd digidol. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys adnodd hunanwerthuso, ar gael drwy wefan AaGIC.

Did you know that digital skills are an essential component within the updated HCPC standards of practice? The Digital Capability Framework is a practical, interactive tool to help better understand the skills, behaviours and attitudes needed to thrive in a digital world. More information, including a self-evaluation tool, is available through the HEIW website.

## Newyddion am y Rhaglen

Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 4:

- Dathlodd Uwch Reolwr y Prosiect, Lisa Oyler, a Rheolwr y Rhaglen, James Triscott flwyddyn fel rhan o Weithrediaeth y GIG a'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol ym mis Chwefor a Mawrth, yn y drefn honno. Diolch am eich cefnogaeth barhaus!
- Roedd gan y Rhaglen stondin arddangos yng Nghynhadledd Gwyddor Iechyd Genedlaethol Cymru 2 ddiwrnod yng Ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd ar 7 ac 8 Mawrth, digwyddiad a gynhaliwyd gan Raglen HCS a Phyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru. Roedd sawl aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn bresennol, ochr yn ochr ag Arweinydd Portffolio'r Rhaglen, Amanda Evans, a gadeiriodd un o'r sesiynau rhyngweithiol.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda chydweithwyr o Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ar 11 Mawrth i drafod cynlluniau ar gyfer Diwrnod Radiograffeg y Byd 2024 ac o bosibl cynnal cynhadledd arall – mwy yn y man!
- Bydd aelod o'r tîm, James Triscott, hefyd yn cyflwyno yng Nghynhadledd Delweddu ac Oncoleg y DU yn Lerwel ym mis Mehefin - mwy am hyn yn y cylchlythyr nesaf.

## Programme News

Other key highlights from Quarter 4:

- Senior Project Manager, Lisa Oyler, and Programme Manager, James Triscott celebrated their 1-year anniversaries as part of the NHS Executive and the National Imaging Programme in February and March, respectively. Thank you for your continued support!
- The Programme had an exhibition stand at the 2-day Wales National Health Science Conference at the Angel Hotel in Cardiff on the 7<sup>th</sup> and 8<sup>th</sup> March, an event hosted by the HCS Programme and Welsh Scientific Advisory Committee. Several NIP team members attended, alongside Programme Portfolio Lead Amanda Evans who chaired one of the interactive sessions.
- A meeting was held with colleagues from the National Imaging Academy Wales on the 11<sup>th</sup> March to discuss plans for World Radiography Day 2024 and potentially hosting another conference – watch this space!
- Team member James Triscott will also be presenting at the UKIO Conference in Liverpool in June - more on this in the next newsletter.

Gwneud eich rhan!

Get involved!

**Gwefan: [Rhaglen Delweddu](#)**  
**[Genedlaethol - GIG Cymru](#)**  
**[Gweithrediaeth](#)**

Os oes arnoch angen cysylltu ag  
aelod o dîm y Rhaglen Delweddu  
Genedlaethol, e-bostiwch:  
[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

**Rhifyn nesaf – Mehefin  
2024!**

**Website: [National Imaging  
Programme - NHS Wales](#)**  
**[Executive](#)**

If you need to contact a member of  
the National Imaging Programme  
team, please email:

[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.P<br/>rogramme@wales.nhs.uk)

**Next edition – June  
2024!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth,  
Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk](#)

[Update Profile](#) |[Constant Contact Data Notice](#)

Sent by [nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk](mailto:nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk) powered by



Try email marketing for free today!